CYNLLUN RHEOLI
DRAENIO A
DŴR GWASTRAFF

# Dwr Cymru Welsh Water

## Cyflwyniad i'r Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff

Ffurflen Adborth Ymgysylltu â'r Cyhoedd:
Rhanddeiliaid a Rheoleiddwyr

Haf 2022



MEWN PARTNERIAETH Â

rps ATKINS Member of the SNC-Lavalin Group wsp

# Hoffai Dŵr Cymru glywed eich barn a'ch adborth ar ein Cynllun Rheoli Draenio a Dŵr Gwastraff (DWMP)

Mae'r DWMP yn astudiaeth gynllunio hirdymor sy'n nodi ein hanghenion draenio trefol, gwastraff dŵr a charthffosiaeth dros y 25 mlynedd nesaf.

Yn y cynllun hwn, mae Dŵr Cymru yn cyfuno dulliau blaenorol o gynllunio carthffosiaeth â'r rheoliadau diweddaraf ac yn amlinellu sut y bydd yn bodloni gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ymateb i heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol sef twf poblogaeth, ymgripiad trefol, a newid hinsawdd.

> Bydd cynllun rheoli draenio a dŵr gwastraff (DWMP) yn nodi sut mae cwmnïau dŵr a dŵr gwastraff yn bwriadu ymestyn, gwella a chynnal system ddraenio a dŵr gwastraff gadarn a chydnerth. Rhaid i'r cynllun fod â golwg hirdymor ... gydag isafswm cyfnod o 25 mlynedd. Datblygwyd y fframwaith ar gyfer cynlluniau DWMP mewn ymateb i'r angen i wella'r dulliau a ddefnyddir gan y sector dŵr i gynllunio draenio a dŵr gwastraff yn yr hirdymor gyda'r nod o ddarparu mwy o dryloywder, cadernid a golwg ar benderfyniadau buddsoddi sy'n arwain at gost i gwsmeriaid
>
> *Water UK, Medi 2021*

Mae'r DWMP yn fframwaith ar gyfer datblygu gweledigaeth a rennir ar gyfer ansawdd dŵr amgylcheddol, rheoli draenio a dŵr gwastraff. Yn y pen draw, mae DWMP yn gynllun sy'n cael ei ysgogi gan y cwmni dŵr er budd yr amgylchedd a chwsmeriaid yng Nghymru a rhanbarthau cyfagos Lloegr.

Bydd y DWMP yn ymdrin â'r canlynol:

- Sut rydym yn bwriadu rheoli heriau'r dyfodol i weithrediad ein hasedau, mewn ymateb i dri phrif fygythiad: twf poblogaeth, ymgripiad trefol a newid hinsawdd.
- Sut rydym yn bwriadu ymestyn, gwella a chynnal systemau draenio a dŵr gwastraff ar draws ardal y cwmni.
- Sut y byddwn yn cynllunio ar gyfer yr hirdymor, gyda chynigion ar gyfer buddsoddi sy'n berthnasol i'r risgiau y byddwn yn eu hwynebu dros o leiaf 25 mlynedd, hyd at 2050.
- Sut rydym yn dangos mwy o dryloywder, cadernid a golwg ar gyfer penderfyniadau buddsoddi sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid.

Mae DWMP yn lasbrint ar gyfer cyflawni'r weledigaeth strategol a nodwyd gennym yn ein dogfen Dŵr Cymru 2050. Mae'r ddogfen hon yn nodi 18 o ymatebion strategol sy'n amlinellu sut rydym yn bwriadu ymateb i dueddiadau yn y dyfodol sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar ddarparu ein gwasanaeth. Maent yn cwmpasu ystod o feysydd, gan gynnwys dŵr gwastraff, cwsmeriaid, cymunedau a'r amgylchedd. Mae'r DWMP yn ymateb arfer gorau i'r rhain, yn seiliedig ar brosesau sefydledig, fel Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr (WRMP) a Chynlluniau Draenio Cynaliadwy.

Cyfeirir at y fersiwn gyntaf hon o'r DWMP fel 'Cylch 1'. Mae rhai elfennau allweddol o'r cynllun wedi'u datblygu yn y cylch hwn tra bod meysydd eraill yn dal i gael eu datblygu. Cynhelir treialon yn ystod y cam hwn, a bydd arferion gorau'n cael eu llunio ac yna'n cael eu hymgorffori mewn cylchoedd yn y dyfodol. Disgwylir i'r cylchoedd hynny gyd-fynd â'r cylch Adolygu Prisiau (PR) 5 mlynedd, y cawn ein hariannu drwyddo.



# Gwasanaethau a Gwmpesir gan y Cynllun

Bydd cynlluniau DWMP yn archwilio rhwydweithiau dŵr gwastraff (dŵr budr, cyfun a dŵr wyneb), cydgysylltiadau â systemau draenio 3ydd parti a phreifat, Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff a'r effeithiau ar y dyfroedd yr ydym yn rhyddhau iddynt (h.y., afonydd, nentydd, dŵr daear, aberoedd a dyfroedd arfordirol).

Mae'r DWMP wedi'i gynllunio fel un cynllun trosfwaol ar gyfer rheoli carthffosiaeth a draenio. Fodd bynnag, mae'r ddwy agwedd hyn yn wahanol ac mae angen ystyriaeth ychydig yn wahanol arnynt

**Carthffosiaeth (dŵr budr, cyfun a dŵr wyneb) –** sut i'w gasglu, ei gludo, ei drin a'i ddychwelyd i'r amgylchedd.

**Draenio –** sut i reoli rhwydweithiau draenio eraill sy'n effeithio ar ein system dŵr gwastraff ar draws ardal ddaearyddol

Er mwyn ystyried elfennau carthffosiaeth a draenio, mae'r DWMP yn edrych ar dueddiadau'r dyfodol ac yn ymgorffori dull o gydweithio ag eraill i gynllunio a nodi atebion.

# Mae Dŵr Gwastraff yn Effeithio ar Bawb

Efallai eich bod yn gofyn i chi'ch hun sut y gallai'r gwaith hwn effeithio arnoch chi, neu pam y dylech ddarllen ymlaen i gael gwybod mwy; yr ateb yw bod dŵr gwastraff yn effeithio ar bawb. Un o'r pethau pwysicaf a wnawn i ddiogelu iechyd y cyhoedd yn Dŵr Cymru yw tynnu dŵr gwastraff o gartrefi, busnesau a chymunedau fel y gellir ei drin a'i ddychwelyd yn ddiogel i'n hafonydd a'r môr. Rydym i gyd yn defnyddio dŵr bob dydd i yfed, coginio, glanhau, ymdrochi a fflysio'r toiled. Mae llawer ohonom yn mwynhau byw ger y môr, pysgota, neu ymlacio ger camlesi ac afonydd. Mae dŵr glân hefyd yn bwysig ar gyfer rhedeg busnesau; hebddo, ni all bwytai gyflenwi bwyd a diodydd, ni all ysbytai gyflawni gweithrediadau hanfodol nac offer glân ac ni all gwasanaethau tân ddiffodd tanau. Mae hefyd yn hanfodol i ffermio oherwydd hebddo, ni allwch dyfu glaswellt a chnydau na glanhau a chynnal da byw.

Mae sicrhau bod gennym gyflenwad o ddŵr glân yn dibynnu'n helaeth ar y ffordd yr ydym yn rheoli draenio a dŵr gwastraff. Wrth i'r galw am ddŵr glân barhau i gynyddu, bydd faint o garthion heb eu trin sy'n dod o gartrefi a busnesau yn cynyddu hefyd. Mae'r ffordd yr ydym yn rheoli hyn yn bwysig gan y bydd yn llywio llesiant Cymru a'r amgylchedd yr ydym i gyd yn ei rannu yn y dyfodol. Bydd hefyd yn chwarae rhan allweddol o ran ateb y galw cynyddol am ddŵr a chefnogi diwydiant a ffermio mwy cynaliadwy.

Dysgwch fwy am bwysigrwydd draenio a gwastraff dŵr i'n bywydau drwy edrych ar ein cwrs e-ddysgu.

# Sut i Roi Eich Adborth

Mae pob arolwg yn cael ei ystyried yn un ymateb  i'r ymgynghoriad. Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen hon ar ran person neu grŵp arall o bobl, cyflwynwch ffurflenni adborth ar wahân i'n helpu i ddadansoddi eich adborth.

**Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 10 wythnos yn dechrau ar 27 Gorffennaf ac yn  cau ar 7 Hydref 2022 am 4pm.**

1. Cwblhewch holiadur adborth yr ymgynghoriad ar-lein yn **https:// www.dwrcymru.com/ en/ein-gwasanaethau/gwastraff dŵr/cynllun draenio-a-gwastraff- rheoli**
2. Cwblhewch  fersiwn PDF o holiadur adborth yr ymgynghoriad isod a'i e-bostio i **DWMP@Dwrcymru.com**
3. Dychwelwch fersiwn wedi ei argraffu o holiadur  adborth yr ymgynghoriad isod drwy'r post at **Mr Steve Wilson, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT**

# Darganfyddwch fwy am y DWMP

Yn ogystal â'r DWMP ei hun, rydym wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau a fydd yn rhoi gwybodaeth i chi i'ch helpu i lywio eich ymateb i'r cwestiynau isod, gan gynnwys:

| | | |
|---|---|---|
| Arddangosfa rithwir | Cwrs e-ddysgu | Crynodeb i'r cwsmer |
| Crynodeb technegol | Crynodeb annhechnegol | Crynodebau ardal |

Gallwch weld y dogfennau hyn ar-lein yn **https://www.dwrcymru.com/en/our-services/wastewater/cynllun draenio a rheoli gwastraff dŵr.** Os oes angen copi papur o'r DWMP neu'r llyfryn hwn arnoch,  anfonwch e-bost atom yn DWMP@dwrcymru.com

# Hysbysiad preifatrwydd data

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu eich gwybodaeth bersonol. Pryd bynnag y byddwch yn rhoi gwybodaeth o'r fath, mae'n ddyletswydd gyfreithiol arnom i'w defnyddio yn unol â'r holl gyfreithiau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR).

## Sut bydd Dŵr Cymru yn defnyddio'r wybodaeth y byddwn yn ei chasglu?

Byddwn yn defnyddio eich data personol a gesglir drwy'r ymgynghoriad hwn at nifer o ddibenion, gan gynnwys:

- i ddadansoddi eich adborth i'r ymgynghoriad
- i lunio Adroddiad Ymgynghori, yn seiliedig ar ein dadansoddiad o'r ymatebion (ni fydd unigolion yn cael eu nodi yn yr Adroddiad)
- i ysgrifennu atoch gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniadau'r ymgynghoriad a datblygiadau eraill
- i gadw cofnodion cyfredol o'n gohebiaeth ag unigolion a sefydliadau

Bydd unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei chynnwys ar y ffurflen hon yn cael ei thrin a'i defnyddio gan (neu ar gael i) y derbynwyr canlynol i gofnodi, dadansoddi ac adrodd ar yr adborth a gawn:

- Dŵr Cymru
- WSP

## Pa hawliau sydd gennyf dros fy nata personol?

O dan delerau GDPR y DU mae gennych hawliau penodol dros sut y caiff eich data personol ei gadw a'i ddefnyddio gan Dŵr Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler ein datganiad preifatrwydd data

**1. O dan ddeddfwriaeth GDPR, ni allwn dderbyn ymatebion i'r ymgynghoriad gan bobl o dan 13 oed.**

☐ Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn 13 oed neu'n hŷn.

**2. Ydych chi'n ymateb fel rhanddeiliad, grŵp cynrychioliadol lleol, cwsmer neu reoleiddiwr? (ticiwch un blwch yn unig os gwelwch yn dda)**

☐ Rhanddeiliad yn ymateb ar ran sefydliad

☐ Ymateb personol fel unigol gwybodus

☐ Grŵp cynrychioliadol lleol

☐ Cwsmer Dŵr Cymru

☐ Cwsmer Cwmni Dŵr Arall

☐ Rheoleiddiwr

## Cyfnod ymgynghori

## (27 Gorffennaf - 7 Hydref 2022)

**3. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad neu grŵp buddiant, ysgrifennwch enw'r grŵp hwnnw isod**

____________________

**4. Ydych chi wedi clywed am DWMP Dŵr Cymru o'r blaen?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

**5. Os felly, sut y clywsoch chi amdano? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

☐ Mynd i gyflwyniad

☐ Derbyn e-bost

☐ Wedi ymweld â'r wefan

☐ Wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu

☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

____________________

**6. Pa mor aml yr hoffech i ni ymgysylltu â chi am y DWMP mewn cylchoedd yn y dyfodol?**

- ☐ Ar gerrig milltir allweddol y Cynllun, h.y. wrth i'r camau Risg, Opsiynau a Datblygu Rhaglenni gael eu cwblhau (tri diweddariad bob pum mlynedd)
- ☐ Bob blwyddyn (pum diweddariad bob pum mlynedd)
- ☐ Unwaith fesul cylch (unwaith bob pum mlynedd)







Fel rhan o gyflwyno pawb i'r Cynllun cyntaf, crëwyd dogfennau cryno gennym a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym wedi creu'r ddogfen 'Cyd-destun Strategol' a'r ddogfen 'Sut a ble yr ydym eisiau gweithio gyda chi'. Rydym yn bwriadu parhau i ddatblygu dogfennau ar gyfer gweddill camau'r Cynllun; Cyfleoedd, Opsiynau a Rhaglenni; ynghyd â 'Yr hyn rydym wedi'i ddatblygu a phryd rydym yn bwriadu eu cyflawni'

**7. Os ydych wedi darllen y dogfennau hyn, ydych chi'n credu y buon nhw'n ddefnyddiol i chi?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Doeddwn i ddim yn gallu cael gafael atynt
- ☐ Ddim yn gwybod

**8. Hoffech chi i ni barhau i'w defnyddio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi?**

- ☐ Ie
- ☐ Na
- ☐ Ddim yn gwybod

**9. Pan fyddwn yn gwneud diweddariadau i'n dogfennau neu wefan, sut hoffech chi gael gwybod? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Twitter
- ☐ Facebook
- ☐ Bil dŵr
- ☐ Posteri mewn llyfrgelloedd neu archfarchnadoedd
- ☐ Sioeau teithiol mewn meysydd parcio archfarchnadoedd neu neuaddau tref

# Camau'r DWMP

Mae pum cam i'r DWMP:

1. **Pennu amcanion –** Nodi'r materion mawr a wynebir nawr ac yn y dyfodol, yn ogystal â chamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw.

2. **Asesu risgiau –** Amlinellu gwybodaeth am faterion draenio a dŵr gwastraff sydd eisoes yn cael eu profi neu sydd wedi'u nodi. Bydd hefyd yn dadansoddi risgiau'r presennol a'r dyfodol a'u hachosion.

3. **Datblygu opsiynau –** Amlinellu'r broses o ddatblygu atebion i fynd i'r afael â'r risgiau a'u graddau o ansicrwydd.

4. **Gwerthuso rhaglenni –** Cyfuno atebion mewn cynllun sy'n rhoi'r gwerth gorau i gwsmeriaid, cymunedau, yr amgylchedd, rheoleiddwyr a'r llywodraeth.

5. **Cyfnod ymgynghori –** Ymgynghoriad cyhoeddus ar y DWMP drafft, a fydd yn cynnwys ymgynghori cyhoeddus helaeth â chwsmeriaid, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr.

**10. O ran camau'r DWMP pryd y byddai'r adeg fwyaf ystyrlon i'ch sefydliad gyfrannu?**

**11.** **Petaech yn fodlon ein helpu i leihau faint o law sy'n mynd i mewn i'n carthffosydd, a fyddech yn ystyried cyflwyno unrhyw un o'r tri mesur canlynol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Arwynebau athraidd ar y dreif
- ☐ Gosod casgenni dŵr i gasglu ac ailddefnyddio dŵr glaw
- ☐ Gosod systemau draenio cynaliadwy o amgylch eich cartref i reoli dŵr glaw a draeniad naturiol yn lleol

**12.** **A ydych yn cytuno y dylem gyflwyno ymgyrchoedd addysgu cwsmeriaid i roi cyngor mewn ardaloedd lleol sy'n dueddol o fod yn agored i rwystrau a achosir gan eitemau o'r rhestr isod?**

- **BWeips gwlyb babanod (y gellir eu fflysio)**
- **Padiau cotwm**
- **Cynhyrchion misglwyf**
- **Cewynnau**
- **Tywelion a hancesi papur**
- **Meddyginiaeth**
- **Olewau, brasterau a seimiau**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

# Gosod Amcanion

Fel rhan o'r Cynllun, rydym wedi creu amcanion cynllunio sy'n mesur risg ar draws y gwahanol feysydd lle rydym yn gweithredu, ac i gyfrannu at ddatblygiad opsiynau. Drwy opsiynau, rydym yn golygu camau y byddwn yn eu cymryd, yn awr ac yn y dyfodol, i gyflawni'r amcanion hyn a mynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu gan gynnwys newid hinsawdd a phoblogaeth sy'n tyfu.

Mae ein hamcanion wedi'u llunio o safonau cenedlaethol i ganiatáu cymhariaeth o fewn y diwydiant, ynghyd ag amcanion lleol sydd wedi'u teilwra i anghenion rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Mae tair thema allweddol i'n hamcanion cynllunio: ansawdd dŵr, faint o ddŵr a chadernid.

Mae'r graff isod yn dangos tair ardal o law a'r gwahaniaeth rhwng mathau o law sy'n digwydd yn y parth hwnnw. Ein bwriad yw datblygu cynlluniau ar gyfer pob ardal ond gosod y cerrig milltir i'w cyflawni yn y digwyddiadau glawiad hyn.

Gall yr atebion ym mhob parth fod yn wahanol iawn hefyd, er enghraifft, yn y parth glas mae'n briodol ychwanegu capasiti i'r garthffos, gan fod y parth hwn yn cyfeirio at gadw carthion gyda rhywfaint o law. Yn yr ardal Werdd rydym yn tybio bod carthion yn cael eu cynnwys ond y glaw trwm cyfun sydd angen ei reoli drwy ei ddychwelyd i fyd natur. Yn yr ardal binc, pan fydd stormydd wedi'u henwi, mae'r rhain yn ddigwyddiadau sy'n dod yn argyfwng, fel Storm Dennis ac mae angen inni roi cynlluniau ar waith i ddychwelyd i wasanaeth arferol cyn gynted â phosibl drwy weithio gyda'r gwasanaethau brys.




**13.** **A ydych yn cefnogi'r egwyddor o reoli dŵr gwastraff ar wahân i garthffosiaeth?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

**14.** **Ydych chi'n cytuno â gosod targedau ar gyfer rheoli carthion a glawiad? h.y. cynnwys carthion a glawiad (y parth Glas), dychwelyd glawiad yn ôl i fyd natur (y Parth Gwyrdd) datblygu cynlluniau i gael y gwasanaeth yn ôl i'r arfer cyn gynted â phosibl ar ôl storm wedi'i henwi fel Storm Dennis.**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod

**15.** **Os hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach, defnyddiwch y blwch isod:**

# Asesu Risg

Ar ôl asesu'r galw presennol a chapasiti'r rhwydwaith draenio a charthffosiaeth, gallwn edrych nesaf ar y risgiau y mae angen i ni eu hystyried drwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun.

Mae ein mesurau wedi'u llunio o safonau cenedlaethol er mwyn gallu cymharu'r diwydiant, ynghyd â mesurau lleol sydd wedi'u teilwra i anghenion rhanddeiliaid a chwsmeriaid. Mae tair thema allweddol i'n mesurau: ansawdd dŵr, faint o ddŵr a chadernid fel y dangosir isod.



**Faint o Ddŵr**
Lleihau'r risg o Llifogydd (mewnol ac allanol) i gymunedau



**Rheoli Ansawdd Dŵr**
Rheoli ansawdd ein dŵr, gwasanaethau a'r amgylchedd



**Cadernid**
Y gallu i addasu i newid wrth gynnal gwasanaethau hanfodol a diogelu'r amgylchedd

Rydym wedi edrych ar amrywiaeth o wahanol ardaloedd fel rhan o asesiad risg cyffredinol:

- **Proses 'sgrinio risg'** i nodi'r ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl nawr a lle mae angen i ni ganolbwyntio'r rhan fwyaf o'n hymdrechion.
- **Asesiad Risg Sylfaenol a Bregusrwydd -** Offeryn i ddod â gwahanol elfennau at ei gilydd a'n helpu i ystyried beth yw'r problemau allweddol nawr ac yn y dyfodol.
- **Nodweddu problemau** y mae angen i ni eu datrys o ran pa mor gymhleth ydynt.

**16. Ydych chi'n credu y dylem fod yn buddsoddi mewn capasiti ychwanegol yn ein carthffosydd i roi amser i ymateb pan aiff rhywbeth o'i le?**

☐ Ydw

☐ Nac ydw

☐ Ddim yn gwybod



# Datblygu Opsiynau

Mae cam datblygu opsiynau'r Cynllun yn nodi cwmpas, cost ac amseriad tebygol gwahanol opsiynau, y gellid eu rhoi ar waith i'n helpu i gyflawni ein hamcanion hirdymor. Mae'n edrych ar werth gwahanol opsiynau - nid yn unig o ran y gost; ond hefyd edrych ar feysydd eraill fel yr effaith debygol ar lifogydd a llygredd, ynghyd â manteision ehangach y gellir eu darparu i bobl leol a natur.

Rydym wedi dechrau gyda rhestr hir o opsiynau a, thrwy gyfres o gamau, wedi ei gostwng i'r opsiynau a ffefrir gwerth gorau, a allai fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd gennym. Drwy bob cam o'r broses o ddatblygu opsiynau, rydym wedi mynd i'r afael â'r mater ac wedi ystyried mwy o feini prawf asesu i gwtogi'r rhestr ymhellach.

**17. A ydych yn cytuno y dylem flaenoriaethu cwsmeriaid sy'n dioddef llifogydd carthffosydd mwyaf aml dros lifogydd carthffosydd priffyrdd?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

**18. A ydych yn cytuno y dylem flaenoriaethu'r ardaloedd mwyaf sensitif i'r amgylchedd dros ddyfroedd ymdrochi?**

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod

Mae twf, ymgripiad trefol a newid hinsawdd yn creu pwysau ychwanegol ar ein rhwydwaith. Mae'r holl bwysau hyn yn digwydd ar gyflymderau gwahanol ar draws yr ardal weithredu gyfan, sy'n golygu bod angen i ni wneud gwelliannau a buddsoddiadau mewn mwy o leoedd, yn fwy aml. Mae angen inni ddewis a ddylem wneud mwy o ymyriadau bach mewn ardal ehangach, neu lai o ymyriadau gyda mwy o fudd mewn nifer lai o ardaloedd.

**Gorlifoedd Storm**

Cynlluniwyd gorlifoedd storm, neu orlifoedd storm cyfunol, i weithredu pan fydd yn bwrw glaw, neu'n fuan ar ôl hynny, i helpu'r system garthffosiaeth i ymdopi. Maent yn darparu rhyddhad rhag pwysau ac yn diogelu cwsmeriaid rhag llifogydd drwy ganiatáu i'r glawiad gormodol a'r gollyngiad carthion fynd i'r cwrs dŵr agosaf. Fel arfer, nid ydynt yn cael llawer o effaith amgylcheddol, ond mae rhai bellach yn gweithredu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, nid yn unig yn ystod digwyddiadau glaw trwm fel y'u cynlluniwyd ar eu cyfer i ddechrau.

Mae hyn yn amlygu'r angen i adolygu sut mae gorlifoedd storm yn gweithio ar hyn o bryd, eu heffaith ar yr amgylchedd ac a ydynt yn diwallu anghenion heddiw ac yfory. Caiff hyn ei ystyried fel rhan o'r Cynllun.

**Camau cynyddrannol i'r 'Gyrchfan Amgylcheddol Derfynol'**

- Storm law fer yn yr haf gyda gorlif storm cyfun yn cydymffurfio a dim llifogydd yn fewnol nac yn allanol
- Glaw mân gyda gorlif storm cyfun yn cydymffurfio a dim llifogydd yn fewnol nac yn allanol
- Cawod drom gyda gorlif storm cyfun yn cydymffurfio a dim llifogydd yn fewnol nac yn allanol
- Glaw trwm gyda'r gorlif storm cyfun yn cydymffurfio (ein gofyniad cyfreithiol) a dim llifogydd (mewnol nac allanol)
- Storm wedi'i henwi a dim ond gollyngiadau neu lifogydd mewn argyfwng.

(Noder ein bod yn cyfyngu'r asesiad yn y cylch hwn o'r holl stormydd uchod i 60 munud yn unig)

**Cwblhewch ein modiwl e-ddysgu i wybod mwy am effaith bosibl twf, ymgripiad trefol a newid hinsawdd yn ystod y 25 mlynedd nesaf**




**O gofio bod gan Dŵr Cymru 106 o ardaloedd Lefel 3, pob un â gwahanol raddau o risg yn gysylltiedig â stormydd, rydym yn cydnabod y bydd sicrhau mwy o gadernid i'r stormydd gwaethaf yn costio mwy o arian na sicrhau llai o gadernid i wrthsefyll stormydd cyffredin. Drwy ddewis cadernid is gallwn wella mewn mwy o feysydd. A phan fyddwn wedi cwblhau'r gwelliant cynyddrannol hwn byddwn yn symud ymlaen i'r gwelliant cynyddrannol nesaf – drwy'r parth glas, gwyrdd a phinc, h.y. stormydd â llai a llai o debygolrwydd o ddigwydd.**

**19. Yn eich barn chi, pa un y dylem ni ei flaenoriaethu?**

☐ Diogelu ardal eang rhag effaith stormydd mewn blwyddyn gyffredin

☐ Diogelu nifer llai o ardaloedd rhag effaith storm llai aml, ond mwy difrifol

# Gwerth Ychwanegol

Rydym wedi edrych ar yr opsiynau cost lleiaf yn gyntaf. Yna, gwnaethom gymharu'r rhestr hon â'r manteision amgylcheddol a chymdeithasol a ddaw yn sgil y gwahanol opsiynau dros gyfnod cynllun 5 a 25 mlynedd.

Rydym wedi creu ateb traddodiadol a chynaliadwy. Rydym wedi cymharu manteision pob un ac wedi dewis ateb cynaliadwy lle mae hwnnw naill ai y gost leiaf neu'n agos at yr ateb traddodiadol â'r gost leiaf. Pan nad yw'r ateb cynaliadwy yn agos at yr ateb traddodiadol o ran cost, rydym wedi dewis yr ateb traddodiadol.

**MANTEISION AMGYLCHEDDOL** yw unrhyw beth sy'n ymwneud â'r amgylchedd – gallai hyn gynnwys afonydd, arfordiroedd a chynefinoedd naturiol. Buddion cymdeithasol yw unrhyw beth sy'n ymwneud â phobl a gweithgareddau pobl – gallai hyn gynnwys atal llifogydd mewn cartrefi a busnesau.

Mae'r niwed amgylcheddol mwyaf yn digwydd pan fydd afonydd a nentydd ar eu lefelau isaf, fel arfer yn yr haf. Dyma hefyd pryd fydd y tywydd yn sych fel bod pobl yn fwy tebygol o fod yn cerdded, pysgota, nofio neu gaiacio ger y dŵr a phwysigrwydd amwynder yr afon neu'r nant ar ei fwyaf.

Cost lleiaf yw'r rhestr o atebion sydd, o'u cymharu â'i gilydd, yn cael eu rhestru yn nhrefn eu cost. O'i gymharu â Chost Amgylcheddol a Chymdeithasol yw'r rhestr o atebion sydd, o'u cymharu â'i gilydd, yn cael eu rhestru yn nhrefn y budd amgylcheddol a chymdeithasol.

**20. A ydych yn cytuno â'n dull o flaenoriaethu'r opsiynau mwyaf buddiol a chynaliadwy oni bai bod y costau'n ormodol?**

☐ dw ☐ Nac ydw ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda)

# Arfarniad o'r Rhaglen

Fel rhan  o'r Cynllun, mae pob ardal a gwmpesir gennym yn cael rhestr o atebion draenio a dŵr gwastraff y gallem eu cyflwyno i wella'r gwasanaeth yn y maes hwnnw .

Mae'r rhestrau hyn yn cael eu dwyn ynghyd i ffurfio'r rhaglen gyffredinol.

Yna, rydym yn gwerthuso'r rhaglen yn ei chyfanrwydd, i gynhyrchu rhestr wedi'i blaenoriaethu o atebion yn nhrefn y budd mwyaf o ran cost.

**21. Rydym wedi dewis ein cynlluniau gwerth gorau ac wedi rhestru'r cynlluniau hyn er budd amgylcheddol. Ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod

**22. Os ydych yn anghytuno, sut fyddai'n well gennych i ni greu'r rhaglen, e.e. y gost leiaf?**





# Ymgysylltu

Dim ond os byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn genedlaethol ac yn lleol y bydd y Cynllun yn cyrraedd ei lawn botensial o ran darparu gwasanaeth draenio a dŵr gwastraff cadarn a chyfnerth. Drwy weithio gydag eraill, gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid. Gallwn hefyd weithio ar draws gwahanol sefydliadau i sicrhau draenio a rheoli llifogydd gwell, a mwy cynaliadwy,.

Ein nod yw sefydlu 13 o Fyrddau Prosiect i weithio fel galluogwyr rhwng Byrddau Rhaglenni a phrosiectau Cymunedol i gytuno ar gynlluniau adnoddau ac adeiladu achosion busnes.



### Byrddau Rhaglenni

Rheoli cronfeydd ar y cyd a chytuno ar raglenni gwaith.



### Byrddau Prosiect

Gweithio fel galluogwyr rhwng Byrddau Rhaglenni a Phrosiectau Cymunedol i gytuno ar gynlluniau adnoddau a llunio achosion busnes.



### Prosiectau Cymunedol

Gweithio gyda Byrddau Prosiect i ddatblygu a gweithredu atebion i broblemau llygredd a llifogydd lleol.

**23. Mae gennym ddiddordeb mewn siarad â'r gymuned am lifogydd a llygredd. Os oes gennych ddiddordeb i un o'n tîm ddod i siarad yn eich grŵp cymunedol, rhowch enw a manylion cyswllt y grŵp yn y blwch isod.**



**24. Hoffech chi i ni dreialu'r mentrau canlynol yng Nghylch 2? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)**

- ☐ Prosiect cymunedol
- ☐ Sgyrsiau â grwpiau cymunedol
- ☐ Grŵp Rheoli Prosiectau Cymunedol
- ☐ Prosiect Gwyddoniaeth Dinasyddion
- ☐ Arall ____________________
- ☐ Dim o'r uchod

**25. A ydych yn cytuno â'n hargymhelliad i sefydlu treial Bwrdd cymunedol ym mhob un o'r ardaloedd dalgylch afon?**

- ☐ Cytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Ddim yn gwybod

**26. Os ydych yn anghytuno, sut ydych chi'n credu y dylid sefydlu Byrddau Cymunedol?**

| |
|---|
| |

# Cynnig ar gyfer Cylch 2

Mae'r dull presennol o gynllunio yn seiliedig ar gost a budd a llwybrau cynllunio, lle mae gennym nifer fawr o amcanion sy'n gwrthdynnu ac sy'n cystadlu am arian.

Er enghraifft, mae gan lifogydd carthffosydd mewnol darged cwmni y mae Ofwat yn barod i'w ariannu i'w gyflawni ond mae hynny'n gwrthdaro ag amcan arall sy'n dweud bod angen i chi leihau gollyngiadau o orlifoedd storm, sydd yn ei dro yn gwrthdaro â tharged arall sy'n nodi bod angen i ni amddiffyn cwsmeriaid rhag storm ddifrifol.

Mae'r dull hwn yn gweithio ar gyfer cynllunio busnes tymor byr ond mae'n gymhleth ac yn gostus iawn i'w gyflawni ar gyfer cynlluniau dros 25 mlynedd.

Mae'r dull a ffefrir gennym yn seiliedig ar wella'r lefel isaf o wasanaeth gan ddefnyddio cyrchfan cwsmeriaid ac amgylcheddol gyda'i gilydd, h.y. i leihau llygredd a llifogydd.

Mae cyrchfan cwsmeriaid yn adeg yn y dyfodol pan na fydd cwsmeriaid yn cael llifogydd o garthion y tu mewn i'w cartrefi mwyach oherwydd diffyg capasiti yn y rhwydwaith carthffosydd.

Mae cyrchfan amgylcheddol yn adeg yn y dyfodol pan fydd ein hafonydd a'n moroedd yn derbyn llifoedd wedi'u trin o'n system garthffosiaeth o ansawdd sy'n diogelu bioamrywiaeth ac ecoleg.

Ein bwriad yw sefydlu lefel gwasanaeth pob afon a chymuned o ran y pedair lefel o wasanaeth isod. Yna, rydym yn bwriadu gwella pob afon a chymuned yn raddol drwy'r lefelau.

1. Gallwn gadw carthion yn y pibellau yn gyson ar ddiwrnodau pan nad oes glaw
2. Gallwn gadw carthion yn y pibellau yn gyson ar ddiwrnodau pan fo cawod fer o law yn ystod yr haf
3. Gallwn gadw carthion yn y pibellau yn gyson ar ddiwrnodau pan fo sawl awr o law mân
4. Gallwn gadw carthion yn y pibellau yn gyson ar ddiwrnodau pan fo glaw trwm am ychydig oriau

**27. A ydych yn cytuno â'r dull cynyddrannol hwn o wella?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Ddim yn gwybod ☐ Ddim yn berthnasol

**Rydym wedi cyflwyno dau ddewis, sef :**

1 Ein hoff ddull yw lleihau'r risg yn gynyddrannol yn y ffordd ganlynol:

A. Gwella pob ardal yn araf dros amser yn raddol drwy gynyddu'r capasiti cyffredinol yn y rhwydwaith (pibellau).

B. Mynd i'r afael ag ardaloedd llai â'r 'risg waethaf' yn gyntaf er mwyn cyflawni polisi'r llywodraeth yn y dyfodol yn yr ardaloedd hynny mewn un cam. Ni fyddai ardaloedd eraill â pherfformiad gwell yn cael eu gwella tan yn ddiweddarach.

2 Parhau fel yr ydym wedi bod yn ei wneud o ran mynd i'r afael â phroblemau ar wahân ar ei pen eu hunain.

**28. Pa un o'r ddau ddewis a restrir uchod sydd orau gennych?**

- ☐ Dewis 1: Cynyddrannol (dull a ffefrir)
- ☐ Dewis 2: Dull safonol

## ? Unrhyw beth arall?

**29. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am ein cynigion yr hoffech eu nodi?**

# Amdanoch chi

**30. Os ydych yn ymateb o sefydliad, rhowch wybod i ni pa sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli**

---

Byddem yn ddiolchgar pe gallech roi eich manylion fel y gellir cofnodi ystod oedran ac amrywiaeth yr ymatebwyr fel rhan o'n hymgynghoriad.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gawn i helpu i ddeall a yw ein hymgynghoriad wedi bod yn ddefnyddiol i bobl o wahanol gefndiroedd a gofynion.

Efallai y byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r canlyniadau, ond ni fyddai unrhyw wybodaeth am unigolyn yn cael ei datgelu.

Diffinnir yr atebion a roddwch i'r cwestiynau hyn fel 'data categori arbennig'. Os ydych yn cytuno i ddarparu Gwybodaeth am Gynhwysiant ac Amrywiaeth, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg. I dynnu eich manylion yn ôl, **cysylltwch â ni drwy anfon e-bost i DWMP@dwrcymru.com neu ysgrifennwch at Mr Steve Wilson, Dŵr Cymru Welsh Water, Linea, Heol Fortran, Llaneirwg, Caerdydd, CF3 0LT**

Os ydych yn gwsmer, atebwch y tri chwestiwn canlynol .

**31. Grŵp oedran (ticiwch):**

- ☐ 13-17
- ☐ 18-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65-74
- ☐ 75-84
- ☐ 85+
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**32. Beth yw eich rhywedd?**

- ☐ Gwryw
- ☐ Benyw
- ☐ Anneuaidd
- ☐ Mae'n well gennyf beidio â dweud

**33. Beth yw eich grŵp ethnig?**

- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig yn cynnwys Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tsieinëeg neu unrhyw gefndir Asiaidd arall
- ☐ Du, Du Prydeinig, Caribïaidd neu Affricanaidd yn cynnwys Du Prydeinig, Caribïaidd, Affricanaidd neu unrhyw gefndir Du arall
- ☐ Grwpiau ethnig cymysg neu luosog yn cynnwys Gwyn a Du Caribïaidd, Gwyn a Du Affricanaidd, Gwyn ac Asiaidd neu unrhyw gefndir Cymysg neu Luosog arall
- ☐ Gwyn yn cynnwys Prydeinig, Gogledd Iwerddon, Gwyddelig, Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig, Roma neu unrhyw gefndir Gwyn arall
- ☐ Grŵp ethnig arall yn cynnwys Arab neu unrhyw grŵp ethnig arall



Os cewch unrhyw anawsterau wrth lenwi'r ffurflen adborth hon neu wrth fynd at ddogfennau ymgynghoriad, neu os oes angen y dogfennau mewn fformat arall, cysylltwch â thîm y prosiect drwy'r manylion cyswllt  isod.

CYNLLUN RHEOLI
DRAENIO A
DŴR GWASTRAFF

DWMP@dwrcymru.com

www.dwrcymru.com/dwmp